# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion pwyllgor a gynhaliwyd ar nos Lun 19eg o Hydref 2020 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Alan H. Jones, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan diddordeb: Bu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant.

3. Derbyn cofnodion 16 Mawrth 2020:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Barry John Owen | Pafiliwn | 101703 | £2,080.00 |
| Hefin Pugh | Torri gwrychoedd | 101704 | £54.00 |
| Cyngor Gwynedd | Casglu gwastraff | 101705 | £104.00 |
| Playsafety Limited | Rospa | 101706 | £90.60 |
| Cymru Dŵr | Dŵr | 101707 | £15.58 |
| PlayQuest Adventure | Offer chwarae | 101708 | £665.26 |
| J.K.Jones | Torri gwair | 101709 | £1,080.00 |
| Cwmni Tân Llŷn | Profi offer | 101710 | £33.00 |
| Cyngor Gwynedd | Toiledau | 101711 | £2,000.00 |
| PlayQuest Adventure | Offer chwarae | 101712 | £1,995.74 |
| B Gwilym | Nwyddau swyddfa | 101713 | £5.00 |
| B Gwilym | Stampiau | 101714 | £140.00 |
| B Gwilym | Teleffon | 101715 | £52.50 |
| Jones & Jones | Amrywiol | 101716 | £925.80 |
| B Gwilym | Cyflog | 101717 | £753.68 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101718 | £188.40 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.
I anfon llythyr at Gyngor Gwynedd parthed yr anfoneb am y toiled cyhoeddus er mwyn gofyn am ostyngiad blwyddyn nesaf yn sgil y ffaith fod y toiledau wedi bod ar gau.

5. Adolygu gwariant o Ebrill 2020 i Hydref 2020:

Yr oedd taenlen Excel wedi ei ddarparu yn manylu ar y gwariant hyd at Hydref 2020, gyda'r daenlen hefyd yn dangos y swm sydd wedi ei wario yn erbyn y gyllideb, gan alluogi'r Cyngor i adnabod unrhyw gorwariant tebygol.

Nodwyd bod y Clerc wedi penderfynu peidio derbyn cyflog am y cyfnod o Ebrill tan ddiwedd mis Mehefin gan nad oedd y cyngor wedi bod yn cyfarfod a maes parcio Dolgoch wedi bod ar gau i ymwelwyr.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus - Canllaw Cynllunio Atodol Drafft - CA 5: Ymrwymiadau Cynllunio:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cronfa prosiectau Cymuned yr Awdurdod:

**PENDERFYNIAD:** I gyflwyno cais tuag at prynu offer newydd i'r cae chwarae.

8. Cyngor Tref Nefyn - Cais am gefnogaeth - Galw am fesurau i reoli'r farchnad dai yng Nghymru:

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at Gyngor Tref Nefyn yn datgan cefnogaeth y cyngor, gan egluro nad oes tai ar werth ym Mryncrug a diffyg tai i pobl lleol ifanc.

9. Llythyr gan aelod o'r cyhoedd - pryder am fodurwyr yn parcio mewn mannau perygl yn y pentref, oriau agor y Peniarth ac unigolyn yn byw ar dir yr Eglwys:

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda uned trwyddedu a uned safonau masnach Cyngor Gwynedd er mwyn eu hysbysu bod pryderon yn y pentref am ddiffyg cydymffurfiaeth yn nhafarn y Peniarth â rheolau covid-19.
I gysylltu gyda swyddogion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn gofyn iddynt ymchwilio mewn i'r sefyllfa parthed Eglwys Sant Fathew.
I gysylltu gyda'r Heddlu er mwyn gofyn am gyfarfod safle er mwyn trafod pryderon ynghylch ceir wedi parcio mewn mannau peryglus, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton i fynychu ar ran y cyngor.

10. Cae Chwarae - Dyfynbris i brynu offer newydd:

Adroddwyd bod dyfynbris wedi ei dderbyn ar gyfer gosod offer chwarae newydd, gyda dyfynbris o £5,859 + TAW wedi ei dderbyn.

Trafodwyd y siglen newydd sydd wedi ei osod, ac 'roedd cydsyniad bod y siglen yn edrych yn daclus iawn. Nodwyd yr angen i gael matiau diogelwch newydd ar ochr coesau y siglen, ble yr oedd yr hen siglen wedi ei osod.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth, gan ystyried gosod £5,000 yn y gyllideb yn 2021/22.
I ofyn wrth contractwr y cyngor am ddyfynbris i greu suddfan ddŵr ger y fynedfa i'r cae chwarae.

11. Cae Chwarae - Trefniadau torri gwair yn 2021 a 2022:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn pris J.K.Jones ar gyfer 2021 a 2022.

12. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-llawer o bryfed yn y Pafiliwn
-rhai o'r pyst sydd o amgylch y cae pêl-droed wedi pydru, y Cyngor yn pryderu am ddiogelwch defnyddwyr y cae

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Cynghorwyr Alan Jones, Richard Evans ac Arwel Pierce am ysgubo'r Pafiliwn.
I ofyn i Glwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug i wneud y pyst sydd o amgylch y cael pêl-droed yn saff erbyn diwedd mis Tachwedd, gan egluro bod y cyngor yn pryderu am ddiogelwch plant sydd yn chwarae yn y cae, a bydd y cyngor yn dymchwel y pyst os na fydd y clwb wedi atgyweirio/gosod pyst newydd.

13. Cae Chwarae - gosod les i Glwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I lunio dogfen sydd yn rhestru telerau llogi o safbwynt y Cyngor.

14. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Adroddwyd bod nifer o staff oedd ynghlwm â sefydlu a rhedeg y clwb wedi ei diswyddo gan yr Urdd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I anfon llythyr o ddiolch at y swyddog a fu'n gyfrifol am sefydlu'r clwb ym Mryncrug, gan ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd bod canllawiau wedi ei dderbyn gan menter Gwylio Cyflymder Cymunedol, sydd yn egluro bod y cynllun wedi ei yswirio gan yr Heddlu.

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd ynglŷn ag arwydd Cefn Coed.
I anfon llythyr at Adra parthed pryder y cyngor am ffens sydd ger y garages ym Maes Hyfryd.

16. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nodwyd pryder bod pont ar-Ddyfi yn cau oherwydd llifogydd a bod y giatiau yn aros ar gau am oriau hir wedi i'r llif encilio.

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn mynegi pryder bod y giatiau yn aros ar gau wedi i'r llifogydd encilio, a bod hynny yn golygu dargyfeiriad hir a di-angen i drigolion de Meirionnydd.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:05pm

Llofnod y Cadeirydd ............................................................